John McLeod Campbell 1800–1872

Gweinidog yn Eglwys yr Alban a diwinydd

Ganwyd John McLeod Campbell ar 4 Mai 1800 yn Kilninver, yn fab hynaf i'r Parch. Donald Campbell a'i wraig Mary. Bu farw ei fam pan nad oedd ond chwech oed. Cymerodd ei dad ofal am addysg ei blant a bu hyn yn ddylanwad mawr arnynt. Ym 1811 bu'n llwyddiannus mewn arholiad i fynd i Brifysgol Glasgow a bu arweiniad ei dad ynglŷn ag ieithoedd clasurol o fantais fawr iddo. Wedi dilyn cwrs yn y celfyddydau a diwinyddiaeth – a gymerodd naw mlynedd – aeth i Brifysgol Caeredin am bedair blynedd arall ac yno cafodd drwydded i bregethu gan henaduriaeth Lorn ym 1821. Pregethodd am y tro cyntaf yn yr Aeleg yn eglwys ei dad. Fe'i penodwyd gan Ddug Argyll i eglwys y plwyf yn Rhu, ger Glasgow, ar lan Loch Gare, yn 1825. Tawel fu ei weinidogaeth ar y dechrau ond daeth i gredu a phregethu mai 'sicrwydd yw sylfaen ffydd', hynny yw mai sylfaen y ffydd Gristnogol yw bod pob Cristion yn unigol yn sicr o gariad Duw tuag ato. Roedd y pwyslais hwn yn cynnwys iawn cyffredinol, sef yr athrawiaeth fod iawn (gwerth marwolaeth Iesu wrth iddo gymryd ein pechodau arno ef ei hun a marw trosom) Iesu yn ddigonol ar gyfer pechodau dynoliaeth gyfan ac nid yr etholedig yn unig. Credai llawer o weinidogion Albanaidd ar y pryd fod hyn yn anghyson â Chyffes Westminster y disgwylid iddynt lynu wrthi.

Anfonwyd deiseb gan nifer fechan o'r plwyfolion i henaduriaeth Dumbarton yn gwrthwynebu athrawiaeth Campbell. Ym 1830 anfonwyd cwyn swyddogol gan nifer fwy ym mhlwyf Rhu yn cyhuddo Campbell o heresi, ac wedi achos yn ei erbyn mewn llys eglwysig cafodd ei ddiswyddo.

Am gyfnod o ddwy flynedd bu'n byw gyda'i dad yn Kilninver gan bregethu yn yr ucheldiroedd gorllewinol ac yna ymgartrefodd yn Glasgow. Yn y cyfnod hwn daeth yn gyfeillgar gyda nifer o arweinyddion Cristnogol gan gynnwys Thomas Erskine o Linlathen, Norman MacLeod, A. J. Scott, F. D. Maurice ac Edward Irving. Ceisiodd yr olaf ei berswadio i ymuno â'r Eglwys Apostolaidd Gatholig ond gwrthododd, gan

weinidogaethu yn ddi-dâl mewn capel bychan yn Glasgow. Roedd wedi ei wahardd o bulpudau Eglwys yr Alban. Ym 1838 priodod Mary, merch John Campbell o Ardnahua. Datblygodd i fod yn un o ddiwinyddion mwyaf blaenllaw oes Victoria. Cyhoeddodd *Christ, the Bread of Life* sef astudiaeth o Swper yr Arglwydd (1851). Ystyriai ef y gwaith hwn fel ymateb Protestannaidd i athrawiaeth traws-sylweddiad yr eglwys Gatholig Rufeinig. Ei waith pwysicaf oedd *The Nature of the Atonement* (1856) a ystyrir gan James Denney fel yr unig glasur diwinyddol a gynhyrchodd yr Alban erioed. Daeth ei gryfderau i gyd i'r amlwg wrth iddo wrthwynebu'r hyn a alwai yn 'Galfiniaeth hŷn' pobl fel John Owen a Jonathan Edwards. Yn lle dealltwriaeth gyfreithiol o'r iawn pwysleisiai – trwy bwyso ar rai o ysgrifau Martin Luther – fod Duw yn Dad cariadus oedd yn ceisio adfer perthynas gyda'i blant colledig trwy Iesu Grist. Ystyrid ei safbwynt ar y pryd yn feiddgar. Llyfr arall a gyhoeddodd yn ymwneud ag ysbrydoliaeth y Beibl oedd *Thoughts on Revelation* (1862).

Oherwydd gwaeledd ymddeolodd o'r weinidogaeth ym 1859 a rhoddwyd iddo radd DD er anrhydedd gan Brifysgol Glasgow ym 1868. Ddwy flynedd yn ddiweddarach cyflwynwyd tysteb iddo gan arweinyddion eglwysig yn yr Alban fel cydnabyddiaeth o'i waith fel diwinydd. Bu farw yn Rosneath ar 27 Chwefror 1872 a chladdwyd ei weddillion yno yn yr hen eglwys.